



Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

Beth i'w ddisgwyl gan eich gweithiwr gofal cymdeithasol

Yr hyn allwch chi ei ddisgwyl gan
weithwyr gofal cymdeithasol a beth
i'w wneud os oes gennych chi
bryder.

Cyhoeddwyd gyntaf: 30 June 2026

Diweddariad olaf: 9 October 2026

Lawrlwythwyd y ddogfen hon o
gofalcymdeithasol.cymru ac efallai
nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.

Ewch i

<https://gofalcymdeithasol.cymru/codau-ymarfer-a-chanllawiau/beth-iw-ddisgwyl-gan-eich-gweithiwr-gofalcymdeithasol> am y fersiwn
diweddaraf.

Yr hyn allwch chi ei ddisgwyl gan weithwyr gofal cymdeithasol a beth i'w wneud os oes gennych chi bryder.

Chi a'ch gweithiwr gofal cymdeithasol

Mae gweithwyr gofal cymdeithasol yn eich helpu i fyw eich bywyd yn y ffordd rydych chi ei eisiau. Dylen nhw bob amser ystyried eich llesiant personol a'r hyn sy'n bwysig i chi. Byddant yn cael eu hyfforddi a'u goruchwyllo fel y gallant ddarparu gofal a chefnogaeth o ansawdd uchel i chi i'ch helpu i fyw'r bywyd sy'n bwysig i chi.

Darllenwch ein taflen 'Chi a'ch gweithiwr gofal cymdeithasol' i wybod mwy.

Taflen 'Chi a'ch gweithiwr gofal cymdeithasol'

Beth os nad yw eich gweithiwr gofal cymdeithasol yn dilyn y Cod?

Mae'r Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gweithwyr Gofal Cymdeithasol nodi'r safonau sy'n nodi'r hyn a ddisgwylir gan bobl sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol, er mwyn helpu i gadw'r cyhoedd yn ddiogel.

Disgwylir i bob gweithiwr gofal cymdeithasol ddilyn y Cod hyd yn oed os nad oes angen iddyn nhw gofrestru ar hyn o bryd.

☐ **Rhaid** bawb sydd wedi cofrestru gyda ni ddilyn y Cod.

Bydd y Cod Ymarfer Proffesiynol yn helpu unigolion sy'n derbyn gofal ac aelodau o'r cyhoedd i ddeall sut y dylai gweithiwr gofal cymdeithasol ymddwyn a sut y dylai cyflogwyr eu helpu i wneud eu gwaith yn dda.

Os oes gennych bryder ynghylch gweithiwr gofal:

1. Darllenwch [y Cod](#) i ymgyswngtu â'r safonau
2. Rhannwch eich pryderon â chyflogwr eich gweithiwr gofal a gofyn beth fydd yn ei wneud
3. Os nad yw'r cyflogwr yn mynd i'r afael â'ch pryderon, gofynnwch am gopi o'u gweithdrefn gwyno i helpu i chi wybod beth i'w wneud nesaf
4. Os yw'r gweithiwr wedi'i gofrestru gyda ni ac nid yw siarad â'r cyflogwr wedi helpu, [Codwch eich pryder gyda ni](#) a byddwn yn ateb ichi dros y ffôn neu drwy e-bost yn dibynnu ar eich dewis.

Os ydych chi'n pryderu am safon y gofal a ddarperir gan gwmni neu sefydliad, gallwch gysylltu ag [Arolygiaeth Gofal Cymru \(AGC\)](#) ar 0300 7900 126 neu trwy e-bost agc@llyw.cymru.

Diogelu

Beth i wneud os ydych yn credu bod rhywun yn cael eu cam-drin neu mae rhywun yn eich cam-drin chi

Os ydych yn credu bod rhywun yn cael eu cam-drin neu mae rhywun yn eich cam-drin chi, peidiwch â meddwl bod rhywun arall yn gwneud rhywbeth amdano. Nid oes rhaid i'r gamdriniaeth fod gan weithiwr gofal cymdeithasol yn benodol, fe all fod yn rhywun. Rhannwch eich pryderon gyda pherson mewn awdurdod rydych yn gyffyrddus yn siarad â hwy, er enghraifft:

- Os oes rhywun mewn perygl dybryd deialwch 999
- [Arolygiaeth Gofal Cymru \(AGC\)](#) ar 0300 7900 126

- Os ydych yn credu bod trosedd wedi cyflawni, cysylltwch â'r heddlu ar 101
- Gwefannau [Byrddau Diogelu Ranbarthol](#)
- Am fwy o wybodaeth am y cymorth sydd ar gael ewch ar wefan [Dewis.Cymru](#)
- Eich Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdod Lleol (neu rif tu allan i oriau).

- [Gwasanaethau Cymdeithasol yr Awdurdod Lleol - cysylltiadau diogelu \(gan gynnwys argyfwng y tu allan i oriau\) - dogfen Saesneg yn unig](#)

XLSX 11KB

Cysylltu â ni

Os oes gennych gwestiwn neu os na allwch ddod o hyd i'r hyn yr ydych yn edrych amdano, [cysylltwch â ni](#).